

YMATEB I DDRAFFT STRATEGAETH 2 HYBU'R GYMRAEG YN SIR GÂR

Yn gyffredinol mae'r ddrafft yn waith manwl, trwyadl ac yn sicr ar y trywydd cywir ac yn adlewyrchu'r drafodaeth yn y Fforwm Iaith Sirol. Dyma rai awgrymiadau l'w hystyried ar gyfer cryfhau

CYFLWYNIAD : CYD-DESTUN POLISI

- Er bod y Strategaeth wedi datblygu'n organig yn Sir Gâr – yn wreiddiol o'r ymateb I ganlyniadau Cyfrifiad 2011, ac yn ddiweddar mewn ymateb I brofiad gweithredu Strategaeth 1, dywedir yn gywir fod y Strategaeth hefyd dan gwmpawd y Safonau Iaith – sef mecanwaith cenedlaethol. Teg felly nodi nad yw'r Fforwm Iaith Sirol (Cyngor Sir a'l bartneriaid) yn gweithredu mewn gwagle. Mae nifer o'r ffactorau mwyaf sy'n effeithio ar y Gymraeg yn Sir Gâr yn faterion nail I lywodraeth ganolog o ran cyfrifoldeb polisi cyhoeddus, neu I fympwy'r sector preifat. Dylid nodi'r pwynt yn y Cyflwyniad, a'l ddilyn trwodd fesul adran e.e. o ran cynaladwyedd cymunedau Cymraeg, cyfrifoldeb chwaraewyr preifat yw defnydd o rym ariannol I brynu tai a thir ac amddifadu cyfran o bobl leol o gartrefi yn eu cymunedau, a chyfrifoldeb Llywodraeth ganolog yw caniatáu hynny neu beidio o ddefnyddio grymoedd deddfu. Gellid cydnabod y bydd gorfodi'n ymarferol pobl ifainc I ymadael â'u cymunedau o ddiffyg cartrefi yn sicr o danseilio gwerth polisiau addysg Gymraeg a datblygu cynaladwy o eiddo'r Cyngor Sir a'l bartneriaid.
- Nid yw nod y Fforwm Iaith Sirol yr un fath a nod Llywodraeth ganolog. Y nod sirol yw gwneud y Gymraeg "yn brif iaith y sir". Nod Llywodraeth ganolog yw ceisio miliwn o siaradwyr Cymraeg (efallai fawr fwy na 25% o'r boblogaeth erbyn hynny) erbyn 2050, ac felly'n cydnabod y Gymraeg yn iaith leiafrifol am y dyfodol gweladwy. Wrth gwrs, er mwyn cyrraedd hyd yn oed 25% ledled Cymru, bydd angen ardaloedd fel Sir Gâr lle bo'r gymraeg yn fwyafrifol. Ond, er mwyn cyflawni hyn, mae'n bwysig fod pob rhan o Strategaeth 2 yn seiliedig ar symud at y nod yn Sir Gar, nid nod llai uchelgeisiol Llywodraeth ganolog o "gynyddu defnydd" a "darparu cyfleon". Efallai mai ein problem fwyaf ers 2015 fu gosod nod mwy uchelgeisiol yn Sir Gâr, ond defnyddio strategaeth ac ieithwedd lai uchelgeisiol Llywodraeth ganolog I geisio cyrraedd y nod. Gwelir ym mhob adran nad yw hyn yn

gweithio. Mae datganiad clir felly yn Strategaeth 2 fod angen “symud giêr” a seilio cynllun gweithredu newydd ar gynnydd tuag at y nod o wneud y Gymraeg yn brif iaith.

- Er mwyn hwyluso hyn, gall fod yn ddefnyddiol gyflwyno yn y Cyflwyniad y cysyniad o “gontinwwm” a ddefnyddiwn ym maes addysg, sef ein bod am roi sefydliadau cyhoeddus a rhai3ydd sector a phreifat a ddisgwyliant gefnogaeth gyhoeddus ar gontinwwm tuat at ddefnyddio’r Gymraeg yn brif gyfrwng eu gwaith. Fe gymer amser wrth gwrs, ond bydd y cyfeiriad yn glir ac felly gymhelliant o’r newydd I weithwyr ddysgu ac arfer y Gymraeg fel rhan o uwchraddio eu sgiliau proffesiynol.
- Dylid cydnabod yn rhan olaf y Cyflwyniad nad yw nod y Fforwm Iaith I’w weld wedi treiddio eto at bob rhan o waith y Cyngor Sir a’l bartneriaid, gan ddefnyddio enghraifft y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae dal peth o ddiwylliant fod y Gymraeg yn perthyn I adran gyfyngedig o weinyddiaeth gyhoeddus yn hytrach na threiddio trwy bob gweithgarwch.

3. SEILIAU – GWAITH A WNAED YN STRATEGAETH 1

* Dylid argymhell y methodoleg hwn fel esiampl I siroedd eraill, a bod y methodoleg yn rthoi golau ar fethiannau hefyd ac felly’n hyrwyddo dysgu trwy brofiad. Mae’r gwaith yn glodwiw iawn

* Lle bydd methiannau cyrraedd y targedau y gobeithiwyd amdanynt, gel;lir olrhain hyn dro ar ôl tro at y ffaith nad oedd y dull o gyrraedd y nod yn ddigon uchelgeisiol I gychwyn. O dan Amcan 1, sonnir am gyrff cyhoeddus “yn annog datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithle” – hynny yw fel ychwanegiad opsiynol, yn hytrach na fel uwchraddio sgiliau gweithlu ar gontinwwm tuag at weithio’n Gymraeg. Run fath o ran meithrinfeydd preifat. Mae rhai sy’n gweithredu’n uniaith Saesneg yn methu â pharatoi plant ar gyfer y system addysg lle mae ysgolion ollar gontinwwm ieithyddol. Heb gymhelliant peidio a rhoi cefnogaeth ariannol, does dim syndodna bu cynnydd mawr yn nifer y meithrinfeydd Cymraeg. Yr un fath does dim syndod nad yw myfyrwyr yn dilyn cyrsiau na modiwlau Cymraeg gan mai annog yn unig sydd. Mae cyflwyniad y strategaeth newydd yn cyeirio’n gywir at “normaleiddio” defnydd y Gymraeg, a byddai’n werthfawr dilyn hyn trwodd ym mhob maes unigol fel y gall pobl weld sut y mae’r newid giêr yn edrych yn ymarferol.

4. NOD A GWELEDIGAETH

Mae'r geiriad ar gyfer y nod a'r Gweldigaeth yn bwrpasol iawn gyda methodoleg clir I ddilyn. Gadawaf I Wynfford fanylu ar y mesuryddion a gynigir. Cymeradwywn yn arbennig y pwyslais y "bydd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Strategaeth hon....a... fydd yn gyrru'r gwaith yn ei flaern, ac fe fydd y Fforwm yn derbyn diweddariadau ar lafar oddi wrth y cyrff sy'n cyfrannu at y pwyntiau gweithredu yma'n chwarterol". Mae rhai o golofnau'r Cynllun Gweithredu'n dyner iawn, ond mae'n siwr y gellir manylu ar hyn wrth fynd o faes I faes yn y cyfarfodydd chwarterol.

6. PRIF BARTNERIAID

* Mewn nifer o achosion, dylid nodi y dylai partneriaid addysgol a chyhoeddus eraill fod ar gontinwmm tuag at wneud y Gymraeg yn brif gyfrwng. Mewn adrannau eraill, mae angen ychwanegu llywodraeth ganolog a'i hadrannau fel partneriaid gan fod materion cwbl sylfaenol na all neb ond llywodraeth ganolog ddeddfu neu drefnu ar eu cyfer.

* Addysg ôl-16 yw un o'r enghreifftiau gorau. Yn yr "isamcanion" o ran cynnal defnydd o'r Gymraeg, syrthir yn ol at osod fel nod I sefydliadau addysg o "gynyddu defnydd" a "chyfrleoedd" yn lle datgan yn gadarn fod angen continwmm tuag at wneud y Gymraeg yn brif gyfrwng y gweithgareddau. Mae angen nodi mai methiant addysgol yw fod myfyrwyr yn y sir yn ymadael a choleg addysg bellach heb fedru cyflawni eu gwaith yn Gymraeg yn ogystal a Saesneg.

* Yn yr adran "Digidol", dylid enwi Llywodraeth Cymru fel partner potensial gan mai hi yn unig allai sefydlu Menter Ddigidol Gymraeg (I weithio efallai o'r Egin) yn gyfatebol I'r Mentrau Iaith tiriogaethol ac I hyrwyddo cynnwys Cymraeg ar y cyfryngau digidol. Yr un fath o dan "Cymunedau Cymraeg sy'n ffynnu", mae'n amlwg mai dim ond y llywodraeth ganolog allai ddeddfu I reoli'r farchnad agored sy ddim yn darparu tai am brisiau rhesymol I bobl leol eu prynu na'u rhentu.